CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Ffurflen stocrestr flynyddol o ddefaid a geifr: cwestiynau cyffredin

Guidance on completing your sheep and goat annual inventory form.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 4 Rhagfyr 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 4 Rhagfyr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffurflen-stocrestr-flynyddol-o-ddefaid-geifr-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

1. **Alla i gwblhau'r Stocrestr ar-lein?**
   Gallwch, fe allwch gwblhau eich Stocrestr Flynyddol ar-lein drwy fewngofnodi i'ch cyfrif EIDCymru yn www.eidcymru.org. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, cysylltwch â'r swyddfa ar 01970 636959. Os ydych chi'n cwblhau eich stocrestr yn electronig, nid oes angen dychwelyd ffurflen bapur.

2. **A oes rhaid i mi gwblhau'r stocrestr flynyddol?**
   Oes, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i geidwaid gwblhau Stocrestr Flynyddol o dan Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015.

3. **Pam na dderbyniais i gopi papur o'r stocrestr?**
   Mae'n gyflymach ac yn haws cwblhau eich stocrestr ar-lein. Gofynnir i geidwaid a gyflwynodd eu stocrestr yn electronig mewn blynyddoedd blaenorol neu sydd â chyfrif EIDCymru gweithredol, gwblhau eu stocrestr ar-lein. Os na fedrwch gwblhau'r stocrestr ar-lein cysylltwch â EIDCymru ar 01970 636959.

4. **Allwch chi ddefnyddio'r wybodaeth a roddais yn arolwg ym mis Mehefin?**
   Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol yn y stocrestr hon yn fanylach ar lefel y daliad nag arolwg mis Mehefin.

5. **Ar 1 Ionawr, roedd y defaid/geifr yn cael eu gaeafu (ar dac) ar ddaliad arall. A ddylwn i gofnodi'r anifeiliaid ar fy stocrestr?**
   Dylech, os mai chi yw'r perchennog ond bod yr anifeiliaid i ffwrdd yn gaeafu, ar dac, rhaid cofnodi'r anifeiliaid hyn ar eich stocrestr chi.
   Fodd bynnag, os oes gennych anifeiliaid ar eich tir ond nad chi yw'r perchennog (h.y. mae'r anifeiliaid "ar dac" ar eich tir chi), cyfrifoldeb y perchennog yw cofnodi'r anifeiliaid ar eu stocrestr flynyddol hwy.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffurflen-stocrestr-flynyddol-o-ddefaid-geifr-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

6. **Oes rhaid i mi restru pob rhif daliad lle rwy'n cadw defaid a geifr?**
   Oes, rhaid i chi restru pob rhif daliad lle rydych chi'n cadw eich defaid a/neu eich geifr ar 1 Ionawr. Mae hyn yn cynnwys tir comin a rhifau daliadau sydd wedi'u rhoi at ddibenion symud defaid yn unig.

7. **Rwy'n defnyddio tir comin, sut mae dod o hyd i rif y daliad?**
   Gellir cael rhif daliad y tir comin drwy ffonio'r llinell gymorth ar 01970 636959.
   Bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch cyn cysylltu a nhw:
   a. enw'r comin
   b. rhif y tir comin
   Rhaid i chi gofio cynnwys unrhyw ddefaid rydych chi'n berchen arnynt neu'n geidwad cofrestredig arnynt, sy'n pori tir comin ar 1 Ionawr.
   Noder: Dyma nifer y defaid sy'n perthyn i chi sydd ar neu a oedd ar y comin ar 1 Ionawr, nid nifer y defaid sydd wedi'u cofrestru i bori'r comin.

8. **Nid wyf yn cadw defaid na geifr. Oes angen i mi ddychwelyd a'r stocrestr?**
   Oes, llenwch adran gyntaf a llofnodwch y datganiad. Os nad ydych chi'n cadw defaid neu eifr mwyach, rhaid i chi ddadgofrestru fel ceidwad defaid drwy gysylltu â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar 0300 3038268.

9. **Rwyf wedi dadgofrestru fy hun fel ceidwad ond rwyf newydd dderbyn y stocrestr. A ddylwn i ei llenwi?**
   Dylech. Rydych wedi derbyn y stocrestr gan fod eich daliad wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer symudiadau defaid/geifr yn ystod y flwyddyn diwethaf.

10. **Rwyf wedi derbyn dwy stocrestr flynyddol. Oes angen i mi gwblhau'r ddwy?**
    Er mwyn osgoi dyblygu, cofnodwch yr holl ddaliadau y mae gennych ddefaid arnynt ar 1 Ionawr ar un stocrestr. Ar yr ail stocrestr, ychwanegwch sylw eich

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffurflen-stocrestr-flynyddol-o-ddefaid-geifr-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bod wedi cofnodi eich manylion ar stocrestr arall. Dychwelwch y ddwy stocrestr fel y gallwn ni ddiweddaru ein cofnodion.

11. **Rwy'n cadw fy nefaid/geifr fel anifeiliaid anwes. Oes angen i mi lenwi'r stocrestr?**
    Oes, mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i bob ceidwad defaid a geifr, ac mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i chi lenwi a dychwelyd y stocrestr. Gall methu â gwneud hynny arwain at gamau gorfodi dilynol.

12. **A fydda i'n derbyn cydnabyddiaeth am fy stocrestr?**
    Byddwch, fe fyddwch yn derbyn un o'r canlynol:
    a. Os byddwch chi'n llenwi'r stocrestr ar-lein, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth
    e-bost yn awtomatig.
    b. Cyn belled â'ch bod yn rhoi eich cyfeiriad e-bost i ni, byddwn yn anfon cydnabyddiaeth electronig atoch. Os byddwch chi'n postio eich ffurflen, cewch gydnabyddiaeth drwy'r post.
    c. Os na fyddwch yn rhoi cyfeiriad e-bost i ni, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth trwy'r post.
    Dylech gofnodi yng nghofrestr(au) eich daliad y dyddiad y gwnaethoch ddychwelyd y stocrestr a nifer yr anifeiliaid a gofnodwyd ar y stocrestr.

13. **Mae gen i anifeiliaid ar fwy nag un ar ddeg o ddaliadau.** Naill ai cwblhewch eich stocrestr ar-lein neu ffoniwch y llinell gymorth i ofyn am ffurflen barhad, a'i hatodi a'i dychwelyd gyda'ch stocrestr.

14. **I ble ddylwn i ddychwelyd fy stocrestr papur?**
    Os ydych chi'n llenwi stocrestr bapur, postiwch hi at EIDCymru, Tŷ Merlin, Parc Merlin, Aberystwyth, SY23 3FF.

15. **Nid wyf yn cadw defaid na geifr, ond rwy'n cadw lamas/alpacas. Sut mae'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio arna i?**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffurflen-stocrestr-flynyddol-o-ddefaid-geifr-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Dim ond i ddefaid a geifr y mae’r rheoliadau hyn yn berthnasol (rhywogaethau defaid a geifr). Nid yw lamas/alpacas a da byw eraill yn dod o dan y ddeddfwriaeth hon.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach ar gwblhau’r stocrestr flynyddol, cysylltwch ag EIDCymru: 01970 636959 (Llun i Gwener 9yb tan 5yp)

Rydym yn croesawu galwadau’n Gymraeg.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffurflen-stocrestr-flynyddol-o-ddefaid-geifr-cwestiynau-cyffredin-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.